

Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol o dan y teitl “Y Cytundeb Ymadael : Goblygiadau i Gymru”

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am eu hadroddiad, gan gydnabod, yn enwedig, brydlondeb ei gyhoeddi mewn cyd-destun mor ddeinamig. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhelliad yr Adroddiad isod.

Argymhelliad 1.

Argymhellodd y Pwyllgor:

Y dylai dadansoddiad Llywodraeth Cymru gynnwys asesiad o'r goblygiadau gwleidyddol, economaidd a chyfreithiol i Gymru yn sgil Brexit ar delerau Cytundeb Ymadael. Wrth ddarparu'r dadansoddiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru gynnig cymhariaeth â Brexit 'dim cytundeb' a pharhau ag aelodaeth o'r Undeb Ewropeaidd. Dylai'r asesiad hwn gael ei gyhoeddi cyn unrhyw ddadl yn y Cynulliad ar y Cytundeb Ymadael.

Ymateb: Derbynn.

Gwnaeth y Cynulliad Cenedlaethol drafod a phleidleisio ar y Cytundeb Ymadael drafft ar 4 Rhagfyr 2018. Bu modd inni fodloni'r argymhelliad i gyhoeddi dadansoddiad gan Lywodraeth Cymru o'r cytundeb drafft cyn y sesiwn honno.

Ar 27 Tachwedd, cyhoeddodd y cyn Brif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig ar destun cyfreithiol y Cytundeb Ymadael (yn unol â sêl bendith y Cyngor Ewropeaidd ar 25 Tachwedd). Roedd y datganiad yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r Cytundeb a wnaed rhwng Llywodraeth y DU a'r UE - yn enwedig o'i gymharu â chynigion Llywodraeth Cymru sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a nodir yn y Papur Gwyn, Diogelu Dyfodol Cymru. Bwriad y datganiad oedd hysbysu Aelodau'r Cynulliad am y goblygiadau i Gymru cyn y ddadl a'r bleidlais yn y Cynulliad.

Ymhellach i'r datganiad hwnnw, ar 4 Rhagfyr cyhoeddodd Llywodraeth Cymru adolygiad y Prif Economegydd o'r dadansoddiad economaidd a ddarparodd Llywodraeth y DU ar ganlyniadau economaidd y trefniadau tymor hwy a ffefrir ganddi ar gyfer masnach ar ôl Brexit. Adolygodd y ddogfen ddadansoddiad Llywodraeth y DU a'i gymharu â'r dadansoddiad gan sefydliadau ymchwil eraill, gan gynnwys y Sefydliad Cenedlaethol dros Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (NIESR) a'r Ganolfan Polisi Economaidd (CEP) yn y London School of Economics.

Byddwn yn parhau i roi'r newyddion diweddaraf i'r Cynulliad Cenedlaethol ar unrhyw ddatblygiadau sylweddol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Mark Drakeford AC
Prif Weinidog